

# SL(5)303 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2019

## Cefndir a Diben

---

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu gallu cynhyrchiol tir yng Nghymru, ac mae'n pennu'r swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o bob uned o'r fath am y flwyddyn o 12 Medi 2018 i 11 Medi 2019, at ddibenion penodol yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986.

## Y weithdrefn

---

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

---

Ni nodir dim pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

---

Ni nodir dim pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

---

Mae'r Gorchymyn yn diffinio "hectar cymwys" drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, sef Rheoliad (UE) 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cefnogi o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

O dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, bydd Rheoliad UE 1307/2013 yn rhan o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar y diwrnod ymadael.

## Ystyriaeth y Pwyllgor

---

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2019, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn nodi'r materion a nodir o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

